**BWRDD ACADEMAIDD**
**ACADEMIC BOARD**

Yn adrodd i’r: Senedd

Yn cyfarfod: bedair gwaith y flwyddyn o leiaf

*y diwygiadau diwethaf: Medi 2022; i'* **Y** *w adolygu nesaf: Medi 2024*

Aelodau:

- Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr) (Cadeirydd)
- 3 Dirprwy Is-Ganghellor y Cyfadrannau
- 3 Deon Cysylltiol (Dysgu ac Addysgu)
- Pennaeth Ysgol y Graddedigion
- Cadeirydd Cangen y Brifysgol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Cofrestrydd Academaidd
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth
- Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd
- Pennaeth Cynllunio
- 3 chynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr (Llywydd yr Undeb, Swyddog Materion Academaidd, Swyddog Diwylliant Cymru) a Llywydd UMCA

16 aelod.

Cworwm: 5 aelod

Yn gweinyddu:

- Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) (Ysgrifennydd)
- Drprwy Gofrestrydd (Gwaith Achos Myfyrwyr)

Os yw'r Cadeirydd yn barnu ei bod yn briodol, gellir gwahodd swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd.

Cylch gwaith:

Y Senedd sy'n goruchwylio Cod Ansawdd diwygiedig y Deyrnas Unedig (DU), ac mae mwyafrif y themâu yn dod o dan y Bwrdd Academaidd. Y Bwrdd Academaidd sy'n gyfrifol am fonitro a chloriannu safonau ac ansawdd academaidd rhaglenni astudio, gan gynnwys asesu ac adolygu, yn fewnol ac allanol, ac mae’n gyfrifol am y themâu canlynol:

Asesu
Pryderon, Cwynion ac Apeliadau
Dylunio a Datblygu Cyrsiau
Galluogi Cyflawniadau Myfyrwyr
Arbenigedd Allanol
Dysgu ac Addysgu
Monitro a Gwerthuso
Graddau Ymchwil
Ymrwymiad Myfyrwyr
Dysgu seiliedig ar Waith (ar y cyd â Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol)

Mae adrannau canlynol y Cod Ansawdd yn cael eu harolygu gan bwyllgorau eraill y Senedd:

Denu a Derbyn Myfyrwyr ac Ehangu Cyfranogiad (Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr), Partneriaethau (Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol)

| **Is-Bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd** | **Cadeirydd** |
|---|---|
| Bwrdd Academaidd | Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr) |
| Pwyllgor Materion Academaidd, Cyfadran y Celfyddydau a’r Dyniaethau [CCGC]<br>Pwyllgor Materion Academaidd, Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol [CBGFf]<br>Pwyllgor Materion Academaidd, Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd [CGDB] | Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol<br>Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol<br>Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd |
| Pwyllgor Gwella Academaidd | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth |
| Pwyllgor Profiad y Myfyrwyr | Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd |
| Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg | Dirprwy Is-Ganghellor CCGC |
| Pwyllgor Graddau Ymchwil | Pennaeth Ysgol y Graddedigion |
| Pwyllgor Cynllunio'r Portfolio | Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr) |

Cylch Gorchwyl:

1. Ystyried ac argymell y dylai'r Senedd gymeradwyo i'r Senedd eu cymeradwyo:
    a. Strategaethau a pholisïau newydd sy'n dod o fewn ei gylch gorchwyl.
    b. Rheolau a Rheoliadau - ystyried ac argymell i'r Senedd gymeradwyo rheolau a rheoliadau newydd, a diwygiadau i reolau a rheoliadau presennol.
2. Ystyried ac arddel yr awdurdod i gymeradwyo ar ran y Senedd:
    c. Rhannau newydd o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd a rhannau a ddiwygiwyd yn sylweddol
3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori'r Senedd fel y bo'n briodol ar:
    d. Effeithiolrwydd y drefn o ddylunio, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni.
    e. Monitro'r prosesau i gymeradwyo rhaglenni astudio, a'u hadolygu yn achlysurol.
    f. Rheoli'r holl waith adolygu, dilysu ac achredu allanol sy'n ymwneud â gweithgareddau dysgu o fewn y Brifysgol.
    g. Datblygu, gweithredu, adolygu a gwella Strategaeth Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol trwy ei monitro a'i hadolygu'n systematig gan gyfeirio at yr arfer gorau yn y sector.
    h. Pennu'r disgwyliadau a monitro i ba raddau y cânt eu cyflawni yng nghyswllt darpariaeth y gwasanaethau sy'n ymwneud â chyflawni Ansawdd Academaidd yn y Brifysgol.
    i. Adolygu polisïau a gweithdrefnau asesu ac arholi'r holl raglenni a ddysgir drwy gwrs, gan sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle fel y gall myfyrwyr gofrestru, trosglwyddo, gwneud cynnydd, a chael goruchwyliaeth a chyngor priodol ac, o dan amgylchiadau eithriadol, fel y bydd modd atal myfyrwyr dros dro neu eu gwahardd o'u rhaglen astudio.
    j. Goruchwylio'r drefn arholi allanol i gynlluniau astudio a ddysgir drwy gwrs, gan gynnwys penodi arholwyr allanol i'r rhaglenni astudio hynny, a sicrhau bod yr holl adroddiadau'r arholwyr allanol yn cael eu hystyried ac y rhoddir ymateb iddynt.
    k. Datblygu dulliau dysgu ac addysgu a gyfoethogir trwy waith blaengar a thechnoleg, gan anelu at wella ymhellach brofiad y myfyrwyr.
    l. Adolygu a datblygu strwythurau i wneud yn sicr bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod myfyrwyr yn cael cymorth i ddatblygu a chyflawni, gan gynnwys y dysgwyr sy'n dod o gefndiroedd lle nad yw'n draddodiad ganddynt fynd ymlaen i addysg uwch.
    m. Ymrwymiad y myfyrwyr i'w hastudiaethau, gan sicrhau bod y strategaethau a'r polisïau sydd ar waith yn addas ar gyfer rheoli a hybu ymrwymiad y myfyrwyr i'w hastudiaethau.
    n. Ymrwymiad y staff i'w gwaith, gan fonitro ac adolygu cyfraniad y staff i'r dysgu a'r addysgu, yr Academi Addysg Uwch a'u cyswllt â'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd, trwy'r Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch, y Cynllun Cydnabyddiaeth, a'r rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus.
    o. Monitro trefniadau ac adnoddau i fyfyrwyr ym meysydd cymorth i fyfyrwyr, adnoddau dysgu a chyngor ynglŷn â gyrfaoedd, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.
    p. Meithrin cyswllt â'r myfyrwyr ynghylch sicrhau a chyfoethogi'r profiad addysgol.
    q. Asesiadau ac Arholiadau, gan dderbyn adroddiadau gan Fwrdd Arholi'r Senedd a'r Gofrestrfa Academaidd.
    r. Adolygu a monitro gweithdrefnau Apeliadau Academaidd, Adolygiadau Terfynol, a Chwynion Myfyrwyr.
    s. Rheoliadau a gweithdrefnau ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol.
    t. Datblygu a chynllunio academaidd ynghylch y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, a gwaith sicrhau ansawdd yng nghyswllt y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
    u. Derbyn adroddiadau am gamau gweithredu a gymerwyd gan y Cadeirydd o ran dehongli'r rheoliadau academaidd, ac unrhyw eithriadau ohonynt, a monitro sut y cydymffurfir â'r rheoliadau hynny.
    v. Cyngor a gafwyd gan grwpiau allanol perthnasol, gan gynnwys Byrddau Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol lle y bo'n berthnasol, a chynghori'r Bwrdd Academaidd ynghylch unrhyw oblygiadau polisi.
    w. Materion eraill a gyfeirir gan y Senedd neu'r Is-Ganghellor.

---

Gweithredu

Caiff y pwyllgor ystyried materion a gyfeiriwyd ato gan y Senedd, y Bwrdd Ymchwil, y Bwrdd Denu Myfyrwyr a Marchnata, a Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol. Mae gan y Bwrdd Academaidd awdurdod wedi'i ddirprwyo i sefydlu, cyfuno, neu newid is-bwyllgorau a sefydlwyd i ymdrin â materion o fewn ei gyfrifoldebau, gan gynnwys eu Cylch Gorchwyl perthnasol. Caiff y Bwrdd Academaidd hefyd sefydlu gweithgorau i ymgymryd â gwaith datblygu ac adolygu ar feysydd penodol o fewn ei Gylch Gorchwyl. Wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau, bydd y Bwrdd Academaidd yn ymgynghori â'i is-bwyllgorau ond fe fydd yn cadw ei oruchwyliaeth ar yr holl rannau yng Nghod Ansawdd y DU y cyfeirir atynt yn y Cylch Gorchwyl.